# CYNLLUN CYMORTH INCWM HUNANGYFLOGEDIG COVID-19: SUT FYDD HYN YN HELPU GWEITHWYR LLAWRYDD Y DIWYDIANNAU CREADIGOL YNG NGHYMRU?

Marlen Komorowski a Justin Lewis


**Ar 26 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Gynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig COVID-19.[1] Mae gweithwyr llawrydd yn chwarae rhan bwysig yn economi greadigol Cymru - rydym ni'n cyfrifo bod 40,000 o weithwyr llawrydd yn niwydiannau creadigol Cymru. Sut mae Covid-19 wedi effeit‹hio arnyn nhw ac i ba raddau fydd y cynllun hwn yn lliniaru'r effaith? Cynhaliodd Caerdydd Creadigol, mewn cydweithrediad ag Uned Economi Greadigol Prifysgol Caerdydd, arolwg ar-lein o 237 o weithwyr llawrydd y diwydiant creadigol yng Nghymru i ymdrin â'r cwestiynau hyn.**

## METHODOLEG

| Ym mha sector ydych chi'n hunangyflogedig ynddo'n bennaf? | Dosbarthiad yn yr arolwg |
|---|---|
| Hysbysebu a marchnata | 5% |
| Pensaernïaeth | 2% |
| Crefftau | 5% |
| Dylunio a ffasiwn dylunio | 6% |
| Ffilm, teledu, fideo, radio a ffotograffiaeth | 30% |
| TG, meddalwedd a gwasanaethau cyfrifiadurol | 3% |
| Cyhoeddi (e.e. papurau newydd, cyfnodolion) | 5% |
| Amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd | 1% |
| Cerddoriaeth, perfformio a'r celfyddydau gweledol | 27% |
| Arall | 14% |

Mae'r 237 a ymatebodd i'n harolwg yn cynrychioli'r diwydiannau creadigol ar draws Cymru gyfan, er bod 90% yn dod o dde Cymru, lle mae'r rhan fwyaf o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi'u lleoli. Mae'r tabl yn dangos bod y sampl wedi'i dynnu o amrywiaeth eang o sectorau creadigol, yn gymesur yn fras â'u maint perthynol. Daw dros hanner yr ymatebion o ddau o'r sectorau mwyaf - Ffilm a Theledu a Cherddoriaeth a'r Celfyddydau Perfformio.

## PA MOR DDRWG MAE COVID-19 WEDI TARO GWEITHWYR LLAWRYDD Y DIWYDIANT CREADIGOL?




[1] Ceir manylion y cynllun drwy: https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme

Fel nifer o sectorau'r economi, mae'r diwydiannau creadigol yn ddibynnol iawn ar bobl yn cydweithio a mannau cyhoeddus i gynhyrchu, perfformio, arddangos a gwerthu. Mae ein harolwg yn dangos yr effaith enfawr mae COVID-19 wedi'i gael ar y diwydiannau creadigol. Adroddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr - 85% - ostyngiad sylweddol yn eu busnes, gyda **mwyafrif (60%) yn dweud wrthym ni fod eu gwaith wedi dod i ben yn llwyr.**

**Effaith Covid-19 ar weithwyr llawrydd y diwydiannau creadigol:**

"Fel gweithiwr llawrydd yn y diwydiant teledu, mae ein diwydiant cyfan wedi chwalu'n sydyn iawn."

"Mae fy ngwaith wedi diflannu dros nos o ganlyniad i COVID-19, a dwyf i ddim yn gallu gweld amser yn fuan pan fydd gwasanaeth arferol yn ailgychwyn."

"Chaf i ddim byd ac rwyf i wedi colli fy nghyfle mawr i fasnachu eleni: gwyliau/marchnadoedd yr haf. Maen nhw wedi'u canslo."

"Mae pob un o'r perfformiadau oedd gen i ar y gweill wedi'u canslo."

Nid dim ond busnesau llawrydd sydd dan fygythiad yn sgil yr effaith hwn, ond mewn nifer o achosion mae'n peri caledi sylweddol sy'n debygol o waethygu yn y misoedd nesaf. Fel y dywedodd un ymatebydd: *"Rwyf i wedi colli fy ngwaith i gyd ac rwyf i'n poeni am dalu'r biliau".* Roedd eraill yn meddwl am adael y diwydiannau creadigol - a oedd hyd yma'n un o sectorau mwyaf bywiog ac un o'r rhai oedd yn tyfu gyflymaf yn y DU - yn llwyr. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd: *"Ar hyn o bryd rwyf i'n edrych ar ffyrdd i weithio y tu allan i sector y diwydiannau creadigol oherwydd dwyf i ddim yn gweld dyfodol cynaliadwy yn y sector hwn."*

Mae Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig COVID-19 y Llywodraeth yn arbennig o bwysig i'r diwydiannau creadigol, lle mae pobl hunangyflogedig yn cyfrif am o ddeutu hanner gweithlu'r DU. Mae'r arolwg yn edrych ymhellach ar bwy fydd yn gymwys ar gyfer y cynllun a sut mae'n cymharu â'r iawndal a gynigir i bobl sy'n talu PAYE.

## MEINI PRAWF CYMHWYSEDD Y CYNLLUN - PWY SYDD WEDI'U HEPGOR?

CREATIVE CARDIFF
CAERDYDD CREADIGOL

**Y bwlch cymhwysedd - ffyrdd o weithio**:

*"Rwyf i'n gweithio fel cynhyrchydd yn y sector theatr a chelfyddydau perfformio yng Nghymru. Dros y tair blynedd ddiwethaf mae fy nhaliadau gwaith wedi bod yn gyfuniad o gontractau gan gynnwys PAYE a ffioedd llawrydd. Tan nawr doedd hyn ddim yn broblem, ond oherwydd i fi ennill mwy drwy PAYE nag y gwnes i'n llawrydd yn 17/18 dwyf i ddim yn gymwys i ymuno â chynllun y llywodraeth."*

*"Pan fydd incwm yn gyfuniad o waith PAYE a hunangyflogedig, dyw'r cynllun hwn gan y Llywodraeth ddim yn cefnogi pobl yn fy sefyllfa i, lle dyw'r cydbwysedd rhwng yr elfennau hyn ddim yn 50% neu fwy."*

*"Rwyf i'n teimlo bod cynnig y llywodraeth mewn perygl o adael i berfformwyr yn arbennig gwympo rhwng dwy stôl (yn aml rydyn ni'n gwneud gwaith PAYE rhwng swyddi llawrydd). Rwyf i'n anhygoel o flin ac yn bryderus am fy niogelwch ariannol eleni, yn enwedig gan fod fy ngŵr hefyd yn hunangyflogedig."*

*"I fi, dyw'r cynllun hwn ddim yn ystyried enillion cymysg - mewn 2 o'r 3 blwyddyn dreth ddiweddar, mae fy incwm wedi bod yn gyfuniad o enillion cyflogedig a hunangyflogedig ac felly dyw fy enillion trethadwy yn fy hunanasesiad ddim bob amser yn dangos y darlun cyflawn."*

Gofynnon ni i bobl roi gwybodaeth i ni am eu cymhwysedd ar gyfer y cynllun. Dywedodd nifer sylweddol (18%) er eu bod yn gweithredu fel gweithwyr llawrydd, ni fydd y cynllun yn eu cynnwys am eu bod yn gofrestredig fel Cwmni Cyfyngedig gan gynnwys PSCs (Cwmni Gwasanaeth Personol). Yn aml nid dewis ond rheidrwydd yw sefydlu Cwmni Cyfyngedig - mae'n caniatáu iddyn nhw gydymffurfio â rheolau treth IR35 sy'n rheoli trefniadau gweithio "oddi ar y gyflogres", sy'n rhywbeth y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud yn aml gyda sefydliadau cyfryngau a chwmnïau cynhyrchu. Fel y dywedodd yr ymatebwr hwn: *"Dwyf i ddim yn siŵr am oblygiadau bod yn gwmni cyfyngedig gan fod fy nghyflog yn dod yn rhannol o ddifidendau ac efallai nad yw'n cael ei gyfrif yn 'elw'. Rwyf i'n gweithio fel hyn i'w gwneud yn haws cael gwaith gyda chwmnïau cynhyrchu fel y BBC."*

Mae'r rhan fwyaf o'n hymatebwyr yn bryderus gan eu bod yn ansicr (36%) neu ddim (35%) yn "eithriedig ar gyfer masnachu oherwydd COVID-19." Mewn geiriau eraill, er efallai bod busnes wedi sychu'n llwyr, dydyn nhw ddim wedi'u heithrio yn benodol rhag masnachu. Yn yr un modd, mae llawer o ymatebwyr (25%) yn methu â bodloni'r maen prawf fod "elw masnachu hunangyflogedig yn fwy na hanner cyfanswm eu hincwm". Y realiti i lawer o bobl lawrydd yw eu bod yn cyfuno gwaith llawrydd gyda chontractau PAYE tymor byr - sefyllfa (gan nad ydynt ar hyn o bryd yn gyflogedig ar sail PAYE) a allai olygu na fyddant yn derbyn dim byd. Cawsom ni nifer fawr o sylwadau am y bwlch cymhwysedd hwn.

| Meini prawf cymhwysedd | Ie | Na | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| A wnaethoch chi gyflwyno eich ffurflen dreth Hunanasesu ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19? | 81% | 19% | 0% |
| A fuoch chi'n masnachu ym mlwyddyn treth 2019-20? | 96% | 3% | 0% |
| Ydych chi'n masnachu pan fyddwch chi'n ymgeisio (Ebrill-Mehefin)? | 64% | 22% | 14% |
| Neu a fyddech chi'n eithriedig ar gyfer masnachu oherwydd COVID-19? | 29% | 33% | 38% |
| Ydych chi'n bwriadu parhau i fasnachu ym mlwyddyn dreth 2020-21? | 94% | 1% | 5% |
| Ydych chi wedi colli elw masnachu/masnach partneriaeth oherwydd COVID-19? | 82% | 9% | 10% |
| Ydy eich elw masnachu hunangyflogedig yn llai na £50,000 (yn 2018-2019 neu ar gyfartaledd yn y blynyddoedd diwethaf)? | 94% | 4% | 1% |
| Ydy eich elw masnachu'n cyfrif am dros hanner eich incwm? | 64% | 27% | 9% |

CREATIVE CARDIFF CAERDYDD CREADIGOL

**Y bwlch cymhwysedd - gweithwyr llawrydd mwy diweddar:**

*"Rwyf i'n rhan o'r grŵp anffodus hwnnw nad yw'r llywodraeth yn ei gefnogi: unig fasnachwyr newydd a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn dreth hon. Mae hyn yn golygu nad wyf i'n derbyn unrhyw gymorth ariannol ar wahân i fudd-daliadau, nad ydyn nhw'n talu fy miliau."*

*"Rwyf i wedi cofrestru'n hunangyflogedig/llawrydd ers diwedd 2016 ond cyflwynais DIM ENILLION y llynedd gan fy mod yn gofalu llawn amser am fy mam oedd â salwch angheuol (gyda chefnogaeth fy nghynilon yn unig). Dechreuais fusnes unig fasnachwr fis Tachwedd diwethaf felly dwyf i ddim yn gymwys am ddim byd."*


*"Fel gweithiwr llawrydd newydd, fyddaf i ddim yn gymwys i ymgeisio am y grant"*

*"Dechreuais i weithio'n llawrydd yn ddiweddar felly er fy mod wedi gwneud hyn ers blwyddyn, dwyf i ddim yn bodloni'r maen prawf ond does gen i ddim ffordd o wneud yr incwm y byddwn i wedi'i wneud. Dyw'r cynllun ddim fel pe bai'n berthnasol i fi o gwbl."*

*"Ddes i'n llawrydd ym mis Gorffennaf 2019, sy'n fy eithrio rhag unrhyw gymorth ariannol. Mae hyn yn ymddangos yn hynod o annheg i fi... Mae angen i fi fwyta a thalu biliau fel pawb arall!"*

Roedd llawer o rai eraill yn wynebu problemau cymhwysedd am eu bod wedi dechrau ar yrfa lawrydd yn ddiweddar, neu oherwydd, fel llawer yn y diwydiannau creadigol, eu bod wedi newid o swydd PAYE yn ddiweddar i weithio'n llawrydd. Felly, er enghraifft, esboniodd un o'n hymatebwyr:
*"Rwyf i'n rhan o'r grŵp anffodus hwnnw nad yw'r llywodraeth yn ei gefnogi: unig fasnachwyr newydd a ddechreuodd yn ystod y flwyddyn dreth hon. Mae hyn yn golygu nad wyf i'n derbyn unrhyw gymorth ariannol ar wahân i fudd-daliadau, nad ydyn nhw'n talu fy miliau."*

## CEFNOGAETH Y CYNLLUN - YDY'R CYNLLUN YN GWNEUD DIGON I GEFNOGI'R RHEINI SY'N GYMWYS?




Dan gynlluniau cyfredol y cynllun, bydd pobl hunangyflogedig yn derbyn hyd at uchafswm o £2,500 y mis am dri mis a grant trethadwy fydd yn 80% o gyfartaledd elw blynyddoedd treth 2016-17, 2017-18, a 2018-19 (lle bo'n gymwys). Fel rydym ni wedi gweld, mae hyn yn gweithio yn erbyn pobl sy'n hunangyflogedig yn fwy diweddar.
Roedd rhai o'r rheini oedd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn croesawu hyn ar y cyfan. Er enghraifft dywedodd un ymatebwr: *"Rwyf i'n croesawu unrhyw gymorth oherwydd fel arall mae'n debyg na fyddai gen i fusnes i fynd yn ôl ato yn yr hydref".*


CREATIVE CARDIFF
CAERDYDD CREADIGOL

> **Elw a cholled - sut fydd gweithwyr llawrydd ar eu colled:**
>
> *"Y gorbenion sy'n brifo!"*
>
> *"Rwyf i'n poeni am ei fod yn seiliedig ar elw ar ôl treuliau yn unig ond mae gennyf i lawer o dreuliau mawr o hyd sy'n dal i orfod cael eu talu yn ystod y Pandemig."*
>
> *"Ychydig iawn o iawndal fyddaf i'n ei dderbyn ar sail fy elw o ganlyniad i'r cynllun hwn."*
>
> *"Does dim elw enfawr gan lawer o fasnachwyr bach. Y gorbenion sy'n brifo! Yswiriant yn ddyledus heddiw, $600. Fy 'nghyflog' yw £800 y mis. Mae'n fater o lif arian. £6000 mewn anfonebau na chaiff byth eu talu. Mae bron yn anobeithiol."*
>
> *"Yn rhwystredig, mae'n teimlo fel pe bai treuliau busnes wedi'u heithrio o gymorth y llywodraeth yn llwyr. Yn fy achos i nid dim ond rhent stiwdio yw'r treuliau ond hefyd tanysgrifiadau meddalwedd; cynnal gwefan/ebost; yswiriant a phethau eraill mae'n rhaid i ni barhau i'w talu hyd yn oed os na allwn ni weithio."*

Fodd bynnag pan ofynnon ni i bobl a oedden nhw'n meddwl y byddai'r "cynllun iawndal arfaethedig yn talu am eu colledion drwy COVID-19", roedd y mwyafrif (53%) yn anghytuno, gyda'r ymateb mwyaf poblogaidd - ymhell dros draean - yn anghytuno'n gryf. Ceir nifer o resymau am hyn, gyda llawer yn deillio o natur anwastad hunangyflogaeth. Unwaith eto, mae'r rheini sydd wedi treulio'r tair blynedd ddiwethaf yn datblygu eu busnes yn cael eu taro'n arbennig o galed, fel y dywed y gweithiwr llawrydd hwn: *"Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o waith llawrydd ychydig iawn o arian wnes i. Gwnes i fwy y llynedd ond gan ei fod ar sail cyfartaledd tair blynedd fyddaf i ddim yn gymwys am lawer o gwbl."*

Ond y broblem fwyaf i weithwyr llawrydd oedd tra bo cyflogeion PAYE yn defnyddio eu hincwm i dalu eu *holl* dreuliau, mae'r sefyllfa'n wahanol iawn i weithwyr llawrydd. Yr elw yw'r hyn sy'n weddill *ar ôl* talu eu treuliau. Fel y dywedodd un ymatebydd wrthym: *"Fel gweithiwr llawrydd, rwyf i'n gwario'r rhan fwyaf o fy elw bach ar brynu cyfarpar i fy ngalluogi i weithio. O ganlyniad mae fy "elw" yn fach. Byddai'n decach seilio hyn ar drosiant."* Oherwydd y gallai newid o'r fath wthio rhai dros y trothwy o £50,000, byddai angen i hyn ddigwydd ochr yn ochr â chodi'r trothwy i fod yn unol â gweithwyr TWE (gan ei fod yn dileu'r rhesymeg y tu ôl y trothwy is hwn ar gyfer pobl hunangyflogedig).

## OEDI O RAN TALU - PRYD MAE ANGEN Y GEFNOGAETH AR WEITHWYR LLAWRYDD?



**Oedi taliadau:**

*"Mae'n bwysig cael eglurder cyn gynted â phosibl a wyf i'n gymwys ai peidio a faint rwy'n debygol o'i gael, mae'n bryderus iawn meddwl efallai na fyddaf i'n gwybod hyn yn sicr tan fis Mehefin."*

*"Bydd y cynllun yn talu rhai o fy miliau. Ond ni fydd yn talu am y gwaith rwyf i wedi'i golli. Ni fydd yn talu am y gwaith roeddwn i'n bwriadu ei gael yn y cyfnod o gyfyngiadau symud.*

*"Mae'n anodd ei ddeall a dwyf i ddim yn gwybod pam na all ddechrau nawr. All y rhan fwyaf ohonom ni ddim aros tan fis Mehefin."*

Yn olaf, gofynnon ni i bobl a fyddai'r cyfnod tebygol o oedi gyda thaliadau - mae'r rhan fwyaf yn amcangyfrif na ddaw unrhyw arian tan fis Mehefin - yn achosi problemau ariannol iddyn nhw. Roedd cyfran fawr - tua dwy ran o dair (67%) - yn cytuno y byddai'r oedi hwn yn peri anhawster ariannol sylweddol iddyn nhw. Bydd hyn wrth gwrs yn effeithio'n anghymesur ar y rheini sydd ar incwm is, lle mae llif arian yn hanfodol. Fel y dywedodd y gweithiwr llawrydd hwn: *"Rwyf i'n poeni pa mor hir fydd yn ei gymryd i gael yr arian. Mae mis Mehefin yn bell i ffwrdd, ac mae llawer o bobl hunangyflogedig yn byw o daliad i daliad."* I rai, roedd yn ymwneud â mwy nag ansicrwydd ariannol: *"Dyw aros 2 fis am arian na fyddaf i efallai'n ei gael ddim yn realistig. Gyda rhent, biliau a bwyd i dalu amdanyn nhw rwyf i'n teimlo na fydd hyn yn helpu a bydd rhaid i fi chwilio am waith fydd yn fy ngosod yng nghanol y feirws, a gallwn i fynd yn sâl a'i drosglwyddo i lawer mwy o bobl. Mae angen mwy o help nawr."*

## CRYNODEB A CHASGLIAD

Mae gweithwyr llawrydd yn rhan hanfodol o economi greadigol Cymru. Mae ein harolwg o 237 o weithwyr creadigol llawrydd yng Nghymru'n dangos pa mor galed mae'r sectorau creadigol wedi'u taro gan Covid-19. Mae'r rhan fwyaf o gynhyrchu ffilm, teledu a diwylliannol wedi dod i ben, pob lleoliad perfformio wedi cau, does gan artistiaid a gweithwyr crefft ddim unman ffisegol i werthu eu gwaith ac mae'r galw am y rhan fwyaf o wasanaethau creadigol wedi crebachu.

Yn y cyd-destun hwn, does dim syndod bod 85% o weithwyr llawrydd yn ein harolwg yn adrodd bod eu gwaith naill ai wedi lleihau yn fawr (25%) neu, yn fwyaf cyffredin, wedi sychu'n llwyr (60%). Fel y dywedodd un gweithiwr llawrydd: *"Mae fy ngwaith wedi diflannu dros nos o ganlyniad i COVID-19, a dwyf i ddim yn gallu gweld amser yn fuan pan fydd gwasanaeth arferol yn ailgychwyn."*

Bydd prinder gweithwyr llawrydd yn effeithio ar y sectorau creadigol mewn sawl ffordd. Maent yn rhan annatod o gadwyni cyflenwi - yn enwedig ym maes cynhyrchu ffilmiau a theledu - a gallai'r cadwyni hyn chwalu os oes llai o weithwyr llawrydd.

Yn y cyd-destun hwn, mae Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogedig COVID-19 y Llywodraeth yn gefnogaeth i'w groesawu i sector sy'n dibynnu'n helaeth ar weithwyr

llawrydd. Er i ni ganfod peth cefnogaeth i'r cynllun, i lawer, yn y manylion roedd y problemau'n amlygu eu hunain. Mae llawer o weithwyr llawrydd creadigol yn anghymwys ar gyfer y cynllun am y rhesymau canlynol:

- Maen nhw wedi'u sefydlu fel Cwmnïau Cyfyngedig (18%) (fe'u hanogwyd ac yn aml gorfodwyd i wneud hynny gan lawer o'r cwmnïau maen nhw'n gweithio iddyn nhw). Fel y dywedodd un ymatebydd wrthym: *"Fel cwmni cyfyngedig bach yn talu TAW Treth Gorfforaethol a Threth ar ddifidendau, does dim help gwirioneddol i gwmnïau fel ni."*
- Nododd chwarter o'r gweithwyr creadigol llawrydd fod ganddyn nhw record cyflogaeth sy'n cyfuno cyflogaeth PAYE tymor byr gyda gwaith llawrydd. Fel y nododd y gweithiwr llawrydd hwn: *"Pan fydd incwm yn gyfuniad o waith PAYE a hunangyflogedig, dyw'r cynllun hwn gan y Llywodraeth ddim yn cefnogi pobl yn fy sefyllfa i, lle dyw'r cydbwysedd rhwng yr elfennau hyn ddim yn 50% neu fwy."* (50% ar gyfer y rhai sy'n hawlio fel gweithwyr llawrydd)
- Gyda thwf yr 'economi gig', mae llawer o weithwyr llawrydd newydd yn y diwydiannau creadigol, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn anghymwys. Dyma oedd un o'r rhwystredigaethau mwyaf cyffredin gyda'r cynllun, a fynegwyd yn gryno gan yr entrepreneur ifanc hwn: *"Lansiais fy nghwmni digwyddiadau ym mis Medi 2019 felly rwyf i'n anghymwys ar gyfer Cynllun y Llywodraeth. Rwyf i'n credu bod y diffyg cefnogaeth... yn y cyfnod anodd hwn wedi'i gwneud hi bron yn amhosibl i ni oroesi."*

I'r rheini sy'n gymwys, mae'r cynllun ymhell o'r cymorth mae'r Llywodraeth yn ei gynnig i gyflogeion ar seibiant. Yn wahanol i weithwyr PAYE, i weithwyr llawrydd, elw yw'r eisin ar y gacen - mae'r rhan fwyaf o'u refeniw yn cael ei lyncu gan orbenion a threuliau eraill. Fel yr eglurodd yr ymatebwr hwn i'r arolwg: *"Does dim elw enfawr gan lawer o fasnachwyr bach. Y gorbenion sy'n brifo! Yswiriant yn ddyledus heddiw, $600. Fy 'nghyflog' yw £800 y mis. Mae'n fater o lif arian. £6000 mewn anfonebau na chaiff byth eu talu. Mae bron yn anobeithiol."*

Yn olaf, fel y nododd un gweithiwr llawrydd yn ein harolwg, *"mae llawer o bobl hunangyflogedig yn byw o daliad i daliad."* (neu, i fod yn fanwl gywir, gweithio o un anfoneb i'r un nesaf). Gallai hyn olygu oedi o dri mis cyn cael tâl fydd yn achosi caledi ariannol gwirioneddol. Mewn rhai achosion gallai hyn olygu bod pobl yn cael eu gorfodi i gymryd risgiau gyda'u hiechyd eu hunain (a phobl eraill): *"Gyda rhent, biliau a bwyd i dalu amdanyn nhw rwyf i'n teimlo na fydd hyn yn helpu a bydd rhaid i fi chwilio am waith fydd yn fy ngosod yng nghanol y feirws, a gallwn i fynd yn sâl a'i drosglwyddo i lawer mwy o bobl."*

**ARGYMHELLION**

Mae dod o hyd i ffyrdd o gadw'r gweithlu creadigol llawrydd i fynd drwy argyfwng Covid-19 yn fusnes cymhleth. Er bod llawer yn croesawu *unrhyw* gymorth, roedd y mwyafrif yn teimlo, fel yr eglurodd yr ymatebwr hwn: "Mae'n teimlo fel pe bai'r Llywodraeth yn gosod plaster dros glwyf sy'n pistyllio."

Mae ein harolwg yn arwyddo at nifer o ffyrdd y gallai Lywodraethau'r DU a Chymru ymdrin â'r bylchau a'r annhegwch yn y cynllun presennol.

1. Dod o hyd i ffyrdd i gynnwys y cyfuniad o waith PAYE ac incwm llawrydd yn y gorffennol wrth asesu cyfartaledd incwm, yn ogystal â'r amser mae'n ei gymryd i adeiladu busnes llawrydd;
2. Defnyddio metrigau sy'n cynnwys difidendau incwm gweithwyr llawrydd creadigol sydd yn Gwmnïau Cyfyngedig;
3. Defnyddio metrigau sy'n cynnwys y rheini sydd wedi dechrau ar yrfa llawrydd yn ddiweddar.
4. Ystyried taliadau cychwynnol ymlaen llaw i helpu dros gyfnod yr oedi wrth asesu.

Ffordd fwy syml i ymdrin â'r holl faterion hyn - un a awgrymwyd gan lawer o bobl yn ein harolwg - fyddai cyflwyno incwm sylfaenol i bawb yn ystod y cyfnod hwn. Fel y dywedodd un gweithiwr llawrydd: "*byddai incwm sylfaenol i bawb yn lleddfu anawsterau ariannol yn ogystal â phryderon."*

CREATIVE CARDIFF
CAERDYDD CREADIGOL

## YR ASTUDIAETH

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon ar ran Caerdydd Creadigol, mewn cydweithrediad ag Uned Economi Greadigol Prifysgol Caerdydd. Mae Caerdydd Creadigol yn rhwydwaith sy'n creu cysylltiadau rhwng pobl sy'n gweithio mewn unrhyw sefydliad, busnes neu swydd greadigol yn rhanbarth Caerdydd.
Rhagor o wybodaeth: https://www.creativecardiff.org.uk/
**Diolch arbennig i:** Ysgol Busnes Caerdydd, BECTU, Equity ac, wrth gwrs, cymuned greadigol Caerdydd. Cysylltwch â creativecardiff@caerdydd.ac.uk gydag unrhyw gwestiynau am yr astudiaeth hon.

**Datblygwyd, ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd yr astudiaeth hon gan:**
Yr Athro Justin Lewis - Athro Cyfathrebu a'r Diwydiannau Creadigol, Prifysgol Caerdydd
Dr. Marlen Komorowski - Dadansoddydd Effaith, Uned yr Economi Greadigol, Prifysgol Caerdydd

**Lansiwyd a rheolwyd gan:**
Vicki Sutton – Rheolwr Prosiect, Caerdydd Creadigol, Prifysgol Caerdydd
Sara Pepper – Cyfarwyddwr, Caerdydd Creadigol, Prifysgol Caerdydd

**Gyda chefnogaeth cyfathrebu gan:**
Kayleigh Mcleod – Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu, Caerdydd Creadigol, Prifysgol Caerdydd
Beca Harries – Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu, Caerdydd Creadigol, Prifysgol Caerdydd